# PRESS RELEASE
# DATGANIAD I'R WASG

21 July 2020

**Cardiff Music Board statement on the impact of Covid-19**

The Sound Diplomacy report into Cardiff's music sector which triggered the creation of the Cardiff Music Board found that live music created 70% of jobs in the music sector in Cardiff and produced 65% (£45.6 million) of the income.

With live music venues currently closed, festivals cancelled and recording studios, music education and many other areas of the music sector all affected by Covid-19, Cardiff Music Board are working to address some of the concerns and challenges that have arisen for the industry. The board are now calling for more clarity on the guidance for the sector, particularly around events, mass gatherings and the expected timelines for gigs and performances to restart.

Council Leader and Chair of the Cardiff Music Board, Cllr Huw Thomas said: "Welsh Government legislation means that live music events can't currently take place either indoors or outdoors, but the members of the Music Board are united in their desire to help bring live music back to the city as quickly as possible, once the rules are relaxed. There are many reasons for that – clearly there's a huge cultural value in having music in our lives, but live music is also an essential part of Cardiff's cultural and night-time economy.

"Prior to Covid-19 our plans were to integrate music into every aspect of the city – now, with the jobs and incomes of people and companies in the music industry at risk, we face a new set of challenges.

"The Music Board's work to deliver on our music city aspirations and implement the recommendations in the Sound Diplomacy Music Strategy report will continue and productive conversations are being had on areas as diverse as busking regulations and mapping opportunities for music education in Cardiff, but the reality is that the challenges faced by the music sector in the wake of Covid-19 mean progress will not be easy.

“Our key focus at this time has to be finding ways to support the recovery of Cardiff’s music sector – a sector which has been hit incredibly heavily by the pandemic and the lockdown regulations necessarily put in place to protect public health.

“As we move out of lockdown, the council’s plans for a Safer Cardiff include creating ‘spill out zones’, new spaces in the city centre for cafés and restaurants to extend their business into – the grounds of Cardiff Castle have also been opened up as a free public square.

“If people can safely enjoy live music in these spaces it gives them another reason to spend time in the city centre and support the city’s economy, however without changes or clarifications to the current nationwide rules on live music events then moving forward with these plans is not possible.

“All members of the Music Board, myself included, want live music, whether that’s busking or at more managed events, to play the significant role it could in the council’s wider plan to protect jobs, create a buzz in the city again and create a safe, welcoming environment that encourages people back into the city centre.

“The board are ready to work through these plans, so that when the time comes and the public health situation allows, we can once again welcome live music back to Cardiff and we would welcome further clarity on how and when that could happen.”

Picture courtesy of On Par/Clwb Creative taken last week at a live streamed Panic Shack gig at held at Cultvr.

**(ends)**

**Cardiff Council Media Advisor David Harris Tel: 029 2087 2409**
**Email: davidharris@cardiff.gov.uk**

**Datganiad Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd am effaith Covid-19**

Canfu adroddiad Sound Diplomacy am sector cerddoriaeth Caerdydd a sbardunodd greu Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd fod cerddoriaeth fyw yn creu 70% o’r swyddi yn y sector cerddoriaeth yng Nghaerdydd ac yn creu 65% (£45.6 miliwn) o'r incwm.

Gyda lleoliadau cerddoriaeth ar gau ar hyn o bryd, gwyliau wedi'u canslo a Covid 19 yn effeithio ar stiwdios recordio, addysg cerddoriaeth a llawer o feysydd eraill o'r sector cerddoriaeth, mae Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn gweithio i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a'r heriau sydd wedi codi i'r diwydiant. Bellach mae'r bwrdd yn galw am fwy o eglurder ar y canllawiau ar gyfer y sector, yn enwedig ynghylch digwyddiadau, casgliadau torfol a'r amserlinau disgwyliedig i gyngherddau a pherfformiadau ailddechrau.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Caerdydd a Chadeirydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd, y Cynghorydd Huw Thomas, "Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, ni ellir cynnal digwyddiadau cerddoriaeth fyw dan do neu yn yr awyr agored ar hyn o bryd, ond mae aelodau'r Bwrdd Cerddoriaeth yn unfryd yn eu hawydd i helpu i ddod â cherddoriaeth fyw yn ôl i'r ddinas cyn gynted â phosibl, unwaith y bydd y rheolau wedi'u llacio. Mae llawer o resymau am hynny – yn amlwg mae yna werth diwylliannol enfawr i gael cerddoriaeth yn ein bywydau, ond mae cerddoriaeth fyw hefyd yn rhan hanfodol o economi ddiwylliannol a nos Caerdydd.

"Cyn Covid-19, ein bwriad oedd integreiddio cerddoriaeth i bob agwedd o'r ddinas – nawr, gyda swyddi ac incwm pobl a chwmnïau yn y diwydiant cerddoriaeth mewn perygl, rydym yn wynebu set newydd o heriau.

"Bydd gwaith y Bwrdd Cerddoriaeth i gyflawni ein dyheadau i fod yn ddinas cerddoriaeth a gweithredu'r argymhellion yn adroddiad Strategaeth Cerddoriaeth Sound Diplomacy yn parhau ac mae sgyrsiau cynhyrchiol yn cael eu cynnal am feysydd mor amrywiol â rheoliadau clera a chyfleoedd mapio ar gyfer addysg gerddoriaeth yng Nghaerdydd, ond y gwir yw, oherwydd yr heriau a wynebir gan y sector cerddoriaeth yn sgîl Covid-19, ni fydd cynnydd yn hawdd.

"Ein ffocws allweddol ar hyn o bryd yw dod o hyd i ffyrdd o gefnogi adferiad sector cerddoriaeth Caerdydd – sector sydd wedi cael ei fwrw'n galed iawn gan y pandemig a rheoliadau'r cyfnod cloi yr oedd rhaid eu rhoi ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

"Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi gael eu llacio, mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer Caerdydd Ddiogelach yn cynnwys creu 'parthau estynnol', lleoedd newydd yng nghanol y ddinas ar gyfer caffis a bwytai i estyn eu busnes iddynt – mae tir Castell Caerdydd hefyd wedi cael ei agor fel sgwâr cyhoeddus am ddim.

"Os gall pobl fwynhau cerddoriaeth fyw yn ddiogel yn y mannau hyn, mae'n rhoi rheswm arall iddynt dreulio amser yng nghanol y ddinas a chefnogi economi'r ddinas. Fodd bynnag, heb newidiadau neu eglurhad o'r rheolau cenedlaethol cyfredol ynglŷn â digwyddiadau cerddoriaeth fyw, nid oes modd symud ymlaen gyda'r cynlluniau hyn.

"Mae pob aelod o'r Bwrdd Cerddoriaeth, fel minnau, yn awyddus i gael cerddoriaeth fyw, boed hynny'n ganu ym mhen stryd neu gerddoriaeth mewn digwyddiadau mwy rheoledig, i chwarae'r rôl sylweddol y gallai ei wneud yng nghynllun ehangach y Cyngor i ddiogelu swyddi, creu cyffro yn y ddinas eto a chreu amgylchedd diogel a chroesawgar sy'n denu pobl yn ôl i ganol y ddinas.

"Mae'r bwrdd yn barod i weithio trwy'r cynlluniau hyn, fel y gallwn ni unwaith eto groesawu cerddoriaeth fyw yn ôl i Gaerdydd pan ddaw'r amser a bydd y sefyllfa iechyd cyhoeddus yn ei ganiatáu, a byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch sut a phryd y gallai hynny ddigwydd."

Llun trwy garedigrwydd On Par/Clwb Creative a dynnwyd yr wythnos diwethaf mewn cyngerdd Panic Shack a ffrydiwyd yn fyw o Cultvr

**(diwedd)**


**Ymgynghorydd y Cyfryngau Cyngor Caerdydd David Harris Ffôn: 029 2087 2409**
**E-bost: davidharris@caerdydd.gov.uk**